

Rhif: WG37824



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion)(Cymru) 2019

Ebrill 2019

Crynodeb o ymatebion i'r Ymgynghoriad ar Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) (Cymru) 2019

Cyflwyniad

Mae meddyginiaethau milfeddygol, er yn hanfodol i drin anifeiliaid a sicrhau lles anifeiliaid, hefyd yn golygu amrywiol risgiau i iechyd dynol a'r amgylchedd. Os y cânt eu camddefnyddio, gallant gael effaith ar iechyd dynol yn uniongyrchol neu gallant fynd i'r amgylchedd naturiol drwy eu cynhyrchu, eu defnyddio neu eu gwaredu gyda chanlyniadau anhysbys.

Roedd y Rheoliadau *Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) 1997* yn arfer bod mewn grym yng Nghymru. Mae angen diweddaru'r ddeddfwriaeth hon yn unol â gweddill y *DU (Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) (Lloegr a'r Alban) 2015)* a gyda deddfwriaeth yr UE y mae'r ddeddfwriaeth yn Lloegr a'r Alban yn seiliedig arno.

Mae'r Rheoliadau newydd yn pennu darpariaethau i sicrhau bod cynnyrch anifeiliaid yn ddiogel i ddefnyddwyr a heb ddod i gysylltiad â gweddillion cyffuriau milfeddygol a allai gael eu defnyddio'n gyfreithiol wrth ffermio da byw, ac i wahardd y defnydd o rai cyffuriau anghyfreithlon. Roedd hwn yn ddiweddariad pwysig, ond technegol.

Cafodd cyfnod ymgynghori byrrach pedair wythnos ei gymeradwyo. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn o'r 28ain Ionawr - 26ain Chwefror 2019. Cafodd y ddogfen ymgynghori hon ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru (<https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-01/medicines-consultation-document.pdf>) a chysylltwyd â'r rhai oedd â diddordeb ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori i ganiatáu digon o amser ar gyfer adolygu ac ymateb.

Ni chafwyd unrhyw ymatebion y tro hwn.

Holwyd pedwar cwestiwn:

Cwestiwn 1: Hoffem wybod eich barn am y Rheoliadau drafft ac yn benodol unrhyw effaith, yn bositif neu negyddol, y maent wedi'i gael ar y fframwaith meddyginiaethau milfeddygol yng Nghymru.

Cwestiwn 2: Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a hefyd yr effaith y byddent yn ei chael o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn eich barn, beth fyddai'r effeithiau? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 3: Eglurwch hefyd pam yr ydych yn credu y gellid ffurfio'r polisi arfaethedig neu ei newid fel y caiff ddylanwad positif neu fwy o ddylanwad positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn yr un ffordd â'r Saesneg, ac na fydd unrhyw ddylanwad anffafriol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yr un

mor ffafriol â'r Saesneg.

Cwestiwn 4: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. A oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi: